



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Targeted Care and Enablement**

**Cyngor Sir Ceredigion  
Uned 1 Parc Menter Dyffryn Aeron  
Llanbedr Pont Steffan  
SA48 8AG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

04/10/2024

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

[psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Targeted Care and Enablement

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion
Lleodd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	20 Hydref 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfnod byr o gymorth wedi'i dargedu i bobl sy'n canolbwyntio ar adfer eu hannibyniaeth. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a'r gofal a'r cymorth rhagorol y maent yn eu cael.

Mae'r gweithwyr cymorth medrus a phrofiadol yn dilyn ethos ailalluogi sy'n helpu pobl i adfer eu hannibyniaeth. Mae cynlluniau personol electronig hynod effeithiol yn canolbwyntio ar nodau'r bobl a chânt eu datblygu ar y cyd â'r unigolyn ac unrhyw weithwyr proffesiynol cysylltiedig. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *"I enjoy the ability to make a difference for service users and families, assisting them to re-gain independence"*.

Mae'r darparwr yn goruchwyllo'r gwasanaeth i lefel ragorol ac yn defnyddio amrywiaeth o ddata, gwybodaeth o archwiliadau ac adborth gan bobl berthnasol i wella ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r tîm rheoli yn hygyrch ac yn cynnig cyngor effeithiol i gefnogi'r gweithwyr, dywedodd un ohonynt, *"They listen, give excellent guidance and are fully committed to the ethos of the team"*.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am y gwasanaeth wedi'i bersonoli y maent yn ei gael. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar beth y mae'r bobl am ei gyflawni a pha gymorth sydd ei angen i'w helpu i gyflawni eu nodau. Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i gadw mor iach â phosibl gan fod y gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *"I visited service users in the community, shadowed social workers Occupational health and Physio teams so I had an understanding of their roles within the teams structure which was very beneficial"*. Mae'r cynlluniau personol electronig yn canolbwyntio ar nodau a'r camau gofynnol i'w cyflawni. Mae'r cyfathrebu rhagorol yn y gwasanaeth o gymorth i bawb ganolbwyntio ar y canlyniadau hyn.

Mae hwn yn wasanaeth sy'n para hyd at chwe wythnos ac yn canolbwyntio ar gefnogi'r bobl i adfer cymaint o'u hannibyniaeth â phosibl. Mae iechyd a llesiant y bobl wrth wraidd y gwasanaeth gan fod y gweithwyr cymorth yn canolbwyntio ar yr hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain gan gynnig cymorth dim ond lle bo'i angen. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *"It is a pleasure to be able to work with a team that give their all for the person to regain their independence. It is rewarding to see people improve"*. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod y gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg, sy'n golygu y gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel y dymunant. Mae gan y bobl reolaeth dros eu gwasanaeth; mae'r gweithwyr cymorth yn eu galluogi i adennill sgiliau mewn modd diogel ac effeithiol.

Mae prosesau recriwtio a hyfforddiant yn gwneud yn siŵr bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir gan weithwyr hynod fedrus a gwybodus. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn llwyr yn y rheolwyr.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu'n gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r darparwr yn gweithio mewn ffordd greadigol i ddiwallu anghenion y bobl gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnoleg a chyfarpar arloesol sy'n hyrwyddo annibyniaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth a gânt yn fawr. Nod y gwasanaeth yw helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i'w galluogi i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei gael gan dîm profiadol ac effeithiol iawn o weithwyr cymorth. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"They are very good, terrific, I'd say. They're excellent"*. Mae'r cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi'r effaith y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar y bobl, dywedodd un ohonynt wrthym *"All I can say is, they give an excellent service, five stars. He loves to see them coming, I couldn't ask for more, they are wonderful and like family members now"*.

Mae systemau rhagorol ar waith i ddatblygu cynlluniau personol. Gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol allanol sy'n cychwyn y broses gynllunio. Wedyn, bydd uwch-aelodau o'r staff yn cyfarfod â'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr i drafod y gwasanaeth a gosod nodau. Mae'r asesiadau risg yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel, ond gan hybu ac annog eu hannibyniaeth ar yr un pryd. Mae adolygiadau rheolaidd gyda'r person a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig yn sicrhau bod y gwasanaeth yn anelu'n barhaus at gefnogi'r bobl i gyflawni eu nodau iechyd a llesiant. Dywedodd aelod o deulu, *"It's very well organised and they all work well together; the enablement staff, Occupational Therapists, District Nurses and GPs"*. Mae nodiadau dyddiol electronig yn cofnodi'r camau y mae'r bobl yn eu cymryd i weithio tuag at eu nodau gyda disgrifiadau clir o gyflawniadau ac unrhyw ddigwyddiadau o bwys. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *"Electronic plans are very good. We are always kept up to date and we can see what's been happening and what we need to do"*.

Mae'r rheolwr wedi creu diwylliant 'gallu gwneud' sy'n canolbwyntio ar annog y bobl i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl. Mae'r tîm o weithwyr cymorth hynod brofiadol a gwybodus yn helpu'r bobl yn gyson i gyflawni eu nodau. Dywedodd y staff wrthym: *"I like helping people and it's so satisfying when we help people build their confidence and regain their independence"* a *"The feeling you've made a difference to people's lives/well-being, helped them to regain their independence or even put a smile on their face is worth all of the effort"*.

Mae'r darparwr yn rhoi cymorth i'r bobl mewn modd arloesol. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys codau QR y gall y gweithwyr cymorth eu defnyddio i gael mynediad cyflym i ganllawiau arfer gorau ar sut i ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel. Mae technoleg yn cael ei chyflwyno i gefnogi ac arwain y staff. Mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd helaeth o gyfarpar megis cymhorthion sanau, dyfeisiau â dolenni hir ac adnoddau amrywiol i alluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau rhagorol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae ymweliadau chwarterol statudol yr Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysfawr. Mae'n edrych ar sampl o ddogfennaeth ac yn cynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis yn gynhwysfawr, yn defnyddio canlyniadau'r system archwilio ansawdd fewnol ac adborth gan y bobl, y staff a gweithwyr proffesiynol. Defnyddir y wybodaeth hon i amlygu agweddau cadarnhaol ar y gwasanaeth ac unrhyw feysydd ansawdd y mae am eu gwella.

Mae'r rheolwr wedi creu diwylliant sy'n dilyn ethos galluogi ac sy'n canolbwyntio ar alluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Dywedodd y gweithwyr cymorth wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ati a'i bod bob amser yn barod i'w helpu. Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli'n gyffredinol. Dywedwyd wrthym am yr ymddiriedaeth a'r hyder rhwng y bobl a'r uwch-weithwyr sy'n eu cyflwyno i'r gwasanaeth ac yn adolygu eu cynnydd. Dywedodd y gweithwyr cymorth wrthym eu bod yn gwerthfawrogi hygyrchedd ac arweinyddiaeth y rheolwr, dywedodd un wrthym *"(Manager] is very supportive, I'm always able to discuss any issues/concerns I have, she's extremely approachable. Any suggestions I have are always listened to and explored"*.

Mae'r gweithwyr cymorth yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd, cylchlythyrau wythnosol a systemau electronig oll yn cyfrannu at drefniadau cyfathrebu effeithiol a chysondeb yn y gwasanaeth. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *"This team captures the true essence of what a team is and what it means to be part of a team, all supporting each other and working together to achieve the same goals. Long may it continue!"*. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion o ansawdd uchel ac mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o faterion diogelu.

Cynhelir y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol cyn i staff newydd ddechrau gweithio. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr ac yn cysgodi aelodau profiadol o staff, sy'n eu paratoi ar gyfer eu rôl newydd. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael cyfuniad o hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb i ddysgu sut i ddiwallu anghenion penodol y bobl yn llwyddiannus. Mae'r rheolwr yn nodi cyrsiau priodol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant y bobl. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *"The training is good, and the refreshers keep you up to date on things like Moving and Handling"*. Mae'r gweithwyr cymorth yn cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn meithrin sgiliau pellach drwy gymwysterau proffesiynol.

Mae'r gwasanaeth yn dyrannu staff i ardaloedd penodol yn y sir er mwyn sicrhau parhad gofal a helpu'r bobl i feithrin cydberthnasau â'u gweithwyr cymorth a chyflawni eu nodau.

Dyweddodd unigolyn wrthym, *“The team was most supportive and encouraging at all times. Their demeanour and courtesy was impeccable and most welcome”*.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.



## Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 06/11/2024**